O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2022 Rhif 63 (Cy. 24)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 23a (Magwyr), Sir Fynwy i Gyffordd 34 (Meisgyn), Rhondda Cynon Taf) a Thraffordd yr A48(M) (Cyffordd 29 (Cas-bach), Casnewydd i Gyffordd 29A (Llaneirwg), Caerdydd) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2022

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *21 Ionawr 2022* |
| *Yn dod i rym* | *27 Ionawr 2022* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o draffyrdd yr M4 a'r A48(M), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r traffyrdd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y traffyrdd neu gerllaw iddynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 23a (Magwyr), Sir Fynwy i Gyffordd 34 (Meisgyn), Rhondda Cynon Taf) a Thraffordd yr A48(M) (Cyffordd 29 (Cas-bach), Casnewydd i Gyffordd 29A (Llaneirwg), Caerdydd) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2022 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 27 Ionawr 2022.

---

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), adran 1(1) ac Atodlen 1. Yn rhinwedd O.S. 1999/672 ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

**Dehongli**

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 27 Ionawr 2022 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith;

ystyr "y traffyrdd" ("*the motorways*") yw traffordd yr M4 Llundain i Dde Cymru a thraffordd yr A48(M).

**Gwaharddiad**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darnau o'r traffyrdd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

**Cymhwyso**

**4.** Ni fydd y gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn ei dangos.

**Cyfnod para'r Gorchymyn hwn**

**5.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 21 Ionawr 2022

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

**YR ATODLEN**

Y darnau o gerbytffyrdd tua'r gorllewin a thua'r dwyrain traffordd yr M4 rhwng Cyffordd 23a (Magwyr), Sir Fynwy a Chyffordd 34 (Meisgyn), Rhondda Cynon Taf a holl ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r gorllewin a thua'r dwyrain yr M4 rhwng y cyffyrdd hyn.

Y darn o draffordd yr A48(M) rhwng Cyffordd 29 (Cas-bach), Casnewydd a Chyffordd 29A (Llaneirwg), Caerdydd.